

CEREDIGION



Teithiau Cerdded o gwmpas Aberporth

gan gynnwys mynediad i gadeiriau olwyn



Walks around Aberporth

including wheelchair access



YR ARFORDIR A CHEFN GWLAD
COAST AND COUNTRYSIDE

Llwybr y Clogwyn â Mynediad i Bawb

Mae defnyddwyr cadair olwyn eisoes yn gallu cael mynediad rhwydd i'r traeth a defnyddio cyfleusterau cyhoeddus yn Aberporth, a datblygir hyn ymhellach drwy agor Llwybr y Clogwyn â Mynediad i Bawb. Llwybr 1 cilomedr o hyd yw hwn gydag arwyneb o ansawdd uchel sy'n cydymffurfio â safonau graddiant i gadeiriau olwyn. Mae'r llwybr yn dechrau yn Headland Place, a gellir cael mynediad i'r llwybr hefyd o'r llefydd parcio i'r anabl ger Capel Brynseion wrth ymyl Heol y Graig, sydd oll i'r dwyrain o

Inclusive Access Cliff Top Trail

Building on Aberporth's wheelchair friendly beach access and toilet facilities, the Inclusive Access Cliff Top Trail is a 1km, high quality surfaced path built to wheel chair gradient standards. The path begins at Headland Place and can also be accessed from the disabled bays of the Brynseiol Chapel car park off Heol y Graig, all of which lie to the east of Aberporth Bay. The route follows a cliff top section of the Coast Path and affords spectacular views of the Ceredigion coastline and Cardigan Bay. There are





Fae Aberporth. Mae'r trywydd yn mynd ar hyd rhan o Lwybr yr Arfordir ar ben y clogwyn, ac felly'n cynnig golygfeydd godidog o Fae Ceredigion a'r arfordir. Ceir meinciau picnic cyfeillgar i ddefnyddwyr cadair olwyn 100 metr ac 1 cilomedr (0.6 milltir) o'r maes parcio. Ceisiwch ddiogelu prydferthwch yr ardal drwy godi'r baw ar ôl i'ch ci faeddu.



wheelchair friendly picnic benches 100 metres and 1 km (0.6 miles) from the car park. Please help to preserve the beauty of this area by cleaning up after your dog and taking your litter home.





Llwybr Barddoniaeth Hendre

Nodweddir y llwybr hwn gan gerddi'r diweddar Dic Jones (1934 - 2009), bardd lleol a oedd yn Archdderwydd etholedig i'r Eisteddfod pan fu farw. Ysbrydolwyd ei gerddi gan y tir lle bu'n byw a'i ffermio am y rhan fwyaf o'i oes.

Roedd Dic Jones yn feistr ar y gynghanedd; sef ffurf unigryw o farddoniaeth Cymru sy'n defnyddio cyfresi o batrymau




Poetry Trail Hendre

This trail features poems by the late Dic Jones (1934 - 2009), a local bard who was the Arch Druid elect for the Eisteddfod when he died. His poems were inspired by the land and are made from materials taken from the land that he farmed and had lived on for most of his life.

Dic Jones was a master of cynghanedd; the uniquely Welsh verse form that uses sequenced patterns of metrics, syllable counts and rhyme to embody and reinforce meaning. He won the chair of poetry at the Urdd (youth) National Eisteddfod five times before his 25th birthday and when he won the National Eisteddfod chair of poetry in 1966 with Cynhaeaf (Harvest). One judge described his entry



mydr, nifer arbennig o sillafau
ac odl er mwyn ymgorffori ac
atgyfnerthu'r ystyr. Enillodd
y gadair yn Eisteddfod
Genedlaethol yr Urdd bum
gwaith cyn ei fod yn 25 mlwydd
oed a phan enillodd gadair yr
Eisteddfod Genedlaethol ym





1966 â'i awdl 'Y Cynhaeaf', disgrifiwyd y gwaith gan un o'r beirniaid fel "un o'r awdlau gorau erioed a ddaeth i'r amlwg yn sgil cystadleuaeth eisteddfod ".

Mae'r gweithiau a welir ar hyd y llwybr yn ddarnau byr sy'n cael eu harddangos naill ai ar deils gwydr a wnaed o glai o'r nant leol neu ar bren o'r goedwig sydd ar ffurf piroglyffig. Mae'r rhan fwyaf o'r gweithiau yn ei famiaith, sef y Gymraeg, ond mae nifer hefyd wedi'u hysgrifennu yn Saesneg. Mae'r arddangosfeydd piroglyffig yn dymhorol a gellir eu gweld drwy gydol misoedd yr haf yn unig tra bod yr arddangosfeydd llosgliw ar deils yn rhai parhaol.

as "one of the best odes ever to emerge from an eisteddfodic competition".

The works featured on the trail are short pieces displayed either on glazed tiles made from clay taken from the local stream or as pyroglyphic wood presentations made from timber taken from the woodland. The majority of the works are in his first language Welsh, but there are also many written in English. The pyroglyphic displays are seasonal and are viewable throughout the summer months while the encaustic tile displays are permanent.



Taith Gylchol



Mae cyfeirbyst wedi'u gosod ar ddwy daith gerdded gylchol sydd wedi'u cysylltu â'i gilydd ac yn cynnig dewis o drywyddau gwahanol. Mae'r rhan fwyaf o'r arddangosfeydd wedi'u lleoli ar daith gylchol 1.3 cilomedr ar ymyl coedwig ac maent wedi'u dynodi â chyfeirbyst lliw coch. Mae'r llwybr hwn yn gorwedd 1.7 cilomedr oddi wrth




Circular Walk

Two interlinking circular walks have been waymarked providing a variety of route options. The majority of the displays are sited on a 1.3km circular walk around the edge of woodland that is signed with a red edged



waymarker disc. This trail lies 1.7km from the Coast Path at Aberporth and 0.6km from the A487 at Blaenporth. There are no stiles on this route though there are steps at Nant Howni.



**Taith Gylchol
Circular Walk**





Lwybr yr Arfordir yn Aberporth a 0.6 cilomedr o'r A487 ym Mlaenporth. Does dim sticlau ar y trywydd er bod grisiau i'w cael yn Nant Howni.



Mae'r llwybr hefyd ar bwys taith gerdded gylchol 5.4 cilomedr allan o Aberporth ac mae wedi'i ddynodi â chyfeirbyst lliw melyn. Mae'r trywydd hwn yn fwy o her ac mae'n golygu cerdded dros sticlau a dringo tir serth.

The trail is also adjacent to a 5.4km circular walk out of Aberporth that is signed with a yellow edged waymarker disc. This is a more challenging route that involves negotiating stiles and some steep climbs.



Parcllyn - Penpeles

Parcllyn - Penpeles



© Crown copyright 2010

Mae'r daith gylch hon yn dechrau ger Canolfan y Weinyddiaeth Amddiffyn ym Mharclynn ac yn mynd i gyfeiriad penrhyn arfordirol creigiog Penpeles. Mae'r llwybr yn mynd ar draws 8 cilomedr o lethrau arfordirol graddol a phorfeydd fflat ac yn cynnig taith hir ond gymharol ddi-her. Mae'r ffaith fod pob sticil ar hyd y llwybr wedi'u codi a chlwydi wedi'u gosod yn eu lle wedi hwyluso'r daith ymhellach i'r rhai sy'n ei chael hi'n anodd cerdded. Ond sylwch, nid oes llwybrau byr

This circular walk starts near the MOD base at Parcllyn and heads out to the rocky coastal promontory of Penpeles. The route runs across 8km of gentle coastal slopes and flat pastures to provide a relatively unchallenging if lengthy outing. The removal of all stiles and their replacement with gates along this route has further facilitated this walk for the less able. But beware; there are no short cuts available to reduce the length of this walk.



The walk follows a remote section of Coast Path that is positioned along the top of the coastal slope and below the fringe of the agricultural land. This imparts a feeling of separation from the trappings of civilisation that induces a sense of tranquilly and isolation. This impression is complimented by the picturesque Cwm Gwrddon and by the inland sections of path that pass through farmland that conveys a quite rural lifestyle.

ar gael i leihau hyd y daith hon.

Mae'r daith yn dilyn rhan anghysbell o Lwybr yr Arfordir sydd wedi'i leoli ar ben y llethr arfordirol ac yn is nag ymyl y tir amaethyddol. Mae hyn yn creu'r teimlad o fod ymhell o brysurdeb y byd a'i bethau ac o fod mewn llonyddwch perffaith. Ychwanegir at hyn gan olygfa brydferth Cwm Gwrddon a chan rannau mewndirol y llwybr sy'n mynd trwy dir fferm ac yn cyfleu ffordd o fyw yn y wlad.



Gwybodaeth i Dwrystiaid

Tourist Information

| | | |
|-------------|--------------|-------------|
| Aberystwyth | 01970 612125 | Aberystwyth |
| Aberaeron | 01545 570602 | Aberaeron |
| Borth | 01970 871174 | Borth |
| Aberteifi | 01239 613230 | Cardigan |
| Cei Newydd | 01545 560865 | New Quay |

Gwefannau
Cyngor Sir Ceredigion

Ceredigion County Council
websites

www.ceredigion.gov.uk

www.ceredigioncoastpath.org.uk

Am fwy o fanylion, cysylltwch ag

Adain yr Arfordir a Chefn Gwlad,
Adran Gwasanaethau
Amgylcheddol a Thai,
Cyngor Sir Ceredigion,
Penmorfa, Aberaeron,
SA46 0PA

Cofiwch ddilyn y Côd Cefn Gwlad.

Ar y daith hon, gall gwartheg fod yn y
caeau sy'n cael eu croesi gan y llwybrau
a gall y llwybrau fod yn fwdlyd ar ôl glaw.

Cymerwch ofal ar llwybrau'r clogwyni.

For further information contact

Coast and Countryside Section,
Department of Environmental
Services and Housing,
Ceredigion County Council,
Penmorfa, Aberaeron,
SA46 0PA

Please remember to follow the countryside code.






Cattle may be in fields traversed by
paths on this route and paths may be
muddy following rainfall.

Take care on cliff-top paths.

Allwedd y Map

Llwybr a hyrwyddir i gerddwyr
Opsionau o drywyddau cerdded
posib arall
Llwybrau Troed Cyhoeddus Arall
Heolydd
Maes Parcio

Map Key

| | |
|---|--------------------------------------|
|  | Promoted route for walkers |
|  | Other possible walking route options |
|  | Other Public Footpaths |
|  | Roads |
|  | Car park |